
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Buddsoddiad Cyfalaf y Celfyddydau

Canllaw
Mehefin 2025



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Buddsoddiad Cyfalaf y Celfyddydau

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn gwahodd sefydliadau i ymgeisio am arian cyfalaf cyfyngedig ei amser i sefydliadau celfyddydol, adeiladau a lleoliadau ledled Cymru. Rhaid i ymgeiswyr gynnig rhaglenni artistig a chyfleoedd i gynulleidfaoedd, defnyddwyr neu ymwelwyr.

### Pwysig

Rhaid dechrau a gorffen eich prosiect (gan gynnwys caffael) a hawlio arian cyn 5 Mawrth 2026 gan na allwn eich talu ar ôl y dyddiad yna. Felly, rhaid datblygu eich prosiectau hyd at gam o ddatblygiad a fydd yn eich galluogi i gwrdd â'r dyddiadau cau hawlio pendant i osgoi colli rhywfaint neu'r cyfan o'ch arian.

Wrth ymgeisio, rydych yn cadarnhau eich dealltwriaeth o'r dyddiadau cau (gan gynnwys colli arian os nad ydych yn cwrdd â nhw).

**Clawr:** Nyth, Cwmni'r Frân Wen

## Cynnwys


Cyflwyniad .... 3

Beth yw prosiect cyfalaf? .... 3

Beth fydd yr arian yn ei gefnogi? .... 4

Proses ymgeisio .... 6

Hygyrchedd .... 6

Pwy fydd yn penderfynu ar y cais? .... 6

Amserlen .... 6

Pa gwestiynau fydd rhaid imi eu hateb? .... 7

Sut i ddefnyddio templed cyllideb y prosiect .... 8

Angen cysylltu â ni? .... 11

# Cyflwyniad

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi derbyn arian gan Lywodraeth Cymru i gefnogi mentrau cyfalaf ar gyfer 2025/26. Pwrpas yr arian yw darparu grantiau i sefydliadau am gyfalaf hanfodol, cynnal a chadw a/neu drawsnewidiol. Mae'r rhan fwyaf o'r arian gan Lywodraeth Cymru ac mae amodau arno y bydd angen cyflawni prosiectau cyfalaf yn y flwyddyn ariannol a bydd angen cyflwyno tystiolaeth o wariant i Gyngor Celfyddydau Cymru erbyn 5 Mawrth 2026. Weithiau, mewn achosion strategol rydym hefyd yn defnyddio arian y Loteri ar gyfer prosiectau penodol.

Wrth ymgeisio i'r gronfa, rydych yn cadarnhau y byddwch yn gallu cyflawni eich prosiect a hawlio'r grant llawn erbyn 5 Mawrth 2026.

Rhaid inni adrodd am gynnydd i Lywodraeth Cymru am y prosiectau a gafodd arian. Bydd arian na chafodd ei hawlio erbyn 5 Mawrth 2026 yn cael ei golli ac ni fyddwn yn gallu rhoi arian i gyflawni eich prosiect wedyn. Mae'n bwysig felly ichi gadarnhau eich gallu i gyflawni eich prosiect yn ôl yr amserlen a bydd hyn yn rhan o'n hasesiad.

# Beth yw prosiect cyfalaf?

Mae prosiect cyfalaf yn wariant ar asedau cyfalaf fel adeiladau ac offer. Gallwch ymgeisio i'r gronfa i brynu, uwchraddio ac adnewyddu asedau cyfalaf.

Os ydych yn ymgeisio am arian cyfalaf i wella ased presennol, rhaid dangos y bydd y buddsoddiad yn ymestyn ei oes, cynyddu ei allu neu wella ei ansawdd. Er enghraifft, o ymgeisio i brynu offer sain a goleuadau newydd, dylai'r prosiect wella ansawdd y lleoliad gan gynnig gwell profiad i aelodau o'r gynulleidfa ac i gwmnïau cynhyrchu. Ystyriwch hefyd yr effaith amgylcheddol y bydd y prosiect cyfalaf yn ei chael ar eich sefydliad. Rhaid ystyried goblygiadau ariannol parhaus unrhyw wariant cyfalaf cyn ymgeisio. Os bydd yn gwneud eich sefydliad yn llai gwydn yn ariannol neu'n arwain at angen rhagor o arian,  annhebyg y bydd yn llwyddo.

# Beth fydd yr arian yn ei gefnogi?

Rydym yn disgwyl galw mawr am yr arian ac efallai na fyddwn yn gallu ariannu pob cais. Wrth gynllunio eich prosiect, ystyriwch beth i'w wneud os yw'ch cais yn methu neu os ydych yn cael llai o arian.

Byddwch yn gallu ymgeisio dan un o'r categorïau canlynol:

- ceisiadau hyd at a chan gynnwys £250,000 – mae modd i ymgeisio am hyd at 90% o'ch costau cymwys.
- ceisiadau dros £250,000 – byddwn yn disgwyl ariannu hyd at 75% o'ch costau cymwys.

Rhaid ichi roi tystiolaeth o sut y byddwch yn ariannu'r ganran sy'n weddill o ffynonellau eraill. Byddwn yn ystyried lefel eich cais wrth ei asesu a'ch arian cyfatebol. Bydd hyn yn rhan o'n hasesiad o ba mor bosibl y bydd i'ch prosiect orffen yn ôl yr amserlen ac yn y flwyddyn ariannol.

Nod y gronfa yw rhoi cymorth cyfalaf hanfodol, cynnal a chadw a/neu grantiau trawsnewidiol. Enghreifftiau o brosiectau y byddwn yn eu hystyried:

- gwella, cynnal a chadw hanfodol ac adnewyddu adeiladau a lleoliadau celfyddydol presennol, yn enwedig lle mae'r newidiadau'n cefnogi plant, pobl ifanc, teuluoedd ac integreiddio cymunedol.
- cyfrannu at astudiaethau dichonoldeb am brosiectau cyfalaf strategol i alluogi sefydliadau i ymchwilio i hyfywedd eu syniadau.
- prynu neu uwchraddio offer, datblygu trawsnewid digidol gan gynnwys asedau sy'n seiliedig ar ddigidol.
- gwella cyfleusterau a phrynu offer a fydd yn gwella hygyrchedd adeiladau celfyddydol neu'n lleihau ôl troed carbon.

Gallwch gynnwys ffioedd proffesiynol a TAW na ellir ei adennill fel rhan o gostau cymwys y prosiect. Dylech gynnwys y swm net ar eich cyllideb oni bai na allwch adennill eich holl TAW. Cadarnhewch eich statws TAW, a nodwch a ydych yn cynnwys TAW na ellir ei adennill (a faint).

Wrth ddosbarthu'r arian, ni fyddwn yn ystyried ceisiadau am:

- prynu offerynnau cerdd.
- prosiectau sy'n cynyddu'r angen am arian cyhoeddus (gan gynnwys gennym ni).

## Byddwn yn asesu eich cais mewn tri maes allweddol:

### 1. Cymhwysedd

Sefydliadau'n unig sy'n gallu ymgeisio am yr arian. Rhaid i'ch sefydliad a/neu'ch adeilad fod yng Nghymru. Rhaid ichi brofi bod gennych hanes o gyflwyno rhaglen broffesiynol o weithgarwch celfyddydol yng Nghymru.

Cyn datblygu eich cais, edrychwch ar ein canllawiau i weld a yw eich sefydliad yn gymwys. Rhaid ichi gadarnhau bod eich sefydliad yn gymwys ar ddechrau'r broses ymgeisio ar-lein. Rhaid i'r adeilad/prosiect hefyd fodloni gofynion hygyrchedd y Ddeddf Cydraddoldeb. Disgrifiwch hygyrchedd eich adeilad. Rydym wedi darparu dogfen hunanasesu i archwilio hygyrchedd i'w llenwi a'i chyflwyno gyda'ch cais os nad ydych yn gallu darparu archwiliad hygyrchedd annibynnol. Nid ydym yn gallu cynnig arian i gyfleusterau cymunedol amlddefnydd drwy'r gronfa ar y lefelau sydd yn y canllawiau. Os ydych yn trafod eich prosiect ag arianwyr eraill, gofynnwch inni am gyngor.

Nodwch eich cymhwysedd fel rhan o'r Cynnig Prosiect. Bydd eich ymateb yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses asesu.

### 2. Blaenoriaethau'r cynllun

- Sut y bydd y prosiect yn eich gwneud yn fwy cynaliadwy'n ariannol?
- Sut y bydd y prosiect yn eich gwneud yn fwy cynaliadwy'n amgylcheddol?
- Sut y bydd y prosiect yn gwella hygyrchedd eich adeilad i bob defnyddiwr gan gynnwys hygyrchedd corfforol ac ar gyfer ystod o gymunedau amrywiol a phobl ag anableddau neu wahanol anghenion?
- Sut mae'r prosiect yn cwrdd â nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, pedair blaenoriaeth y Prif Weinidog i Lywodraeth Cymru a blaenoriaethau diwylliant y Llywodraeth?

Nodwch sut mae'ch prosiect yn bodloni blaenoriaethau ein cynllun fel rhan o'r Cynnig Prosiect a bydd eich ymateb yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses asesu.

### 3. Ansawdd y prosiect

- Pa fanteision y bydd eich prosiect yn eu cynnig i'ch cynulleidfa, eich cymuned neu'ch sefydliad? Disgrifiwch eich prosiect. Pa effaith bydd y prosiect yn ei chael?
- Sut y byddwch yn rheoli eich prosiect a rheoli perygl?
- Sut y byddwch yn cyflawni'r prosiect cyfalaf yn ôl yr amserlen bendant?
- Pa arian cyfatebol fydd gennych i ariannu'r prosiect yn llawn?

Nodwch sut mae eich prosiect yn mynd i'r afael â'r ystyriaethau fel rhan o'r Cynnig Prosiect a bydd eich ymateb yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses asesu.

Hefyd gall y panel sy'n asesu'r cais ystyried ffactorau cydbwyso gan gynnwys y gwasgariad daearyddol ledled Cymru, yr effaith ar y cyhoedd, y gelfyddyd ac a yw ymgeisydd wedi cael arian cyfalaf yn ddiweddar.

Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau os bydd y gwaith yn cynyddu faint mae'n ei gostio i redeg eich sefydliad heb iddo hefyd gynyddu eich incwm. Ni ddylai eich prosiect eich gwneud yn fwy dibynnol ar arian allanol nag yr ydych ar hyn o bryd.

Byddwn yn ystyried fesul achos lefel y warant sy'n ofynnol (er enghraifft tâl cyfreithiol neu weithred gyfamod mewn rhai achosion) gan ddibynnu ar faint y grant a'r math o brosiect.

## Proses ymgeisio

- Rhaid ichi siarad ag un o'n swyddogion cyn cyflwyno eich cais. Cysylltwch â cyfalaf@celf.cymru gydag amlinelliad o'ch prosiect i gael dolen i'r ffurflen gais.
- Defnyddiwch ein porth ar-lein i ymgeisio. Os nad ydych wedi gwneud hyn o'r blaen, cofrestrwch â'r porth - dyma sut i'w wneud.
- Yn y ffurflen gais, nodwch fanylion a disgrifiad byr o'ch prosiect. Defnyddiwch y ddogfen Cynnig Prosiect y byddwn yn ei hanfon atoch i ddangos sut mae eich prosiectau'n cyd-fynd â meini prawf y canllawiau. Rhaid ichi lenwi'r Ddogfen Cynnig Prosiect drwy ateb y cwestiynau a'u hatodi i'r ffurflen gais yn y tri maes: Cymhwysedd; Blaenoriaethau; Ansawdd. Rhaid hefyd gynnwys cyllideb sy'n amlinellu sut byddwch yn defnyddio'r grant. Defnyddiwch dempled y gyllideb gyfalaf y byddwn yn ei anfon atoch.

## Pwy fydd yn penderfynu ar y cais?

Panel o'n staff fydd yn asesu'r cais. Y Pwyllgor Cyfalaf fydd yn cael argymhelliad wedyn gan y panel a phenderfynu arno.

Os bydd eich cais yn llwyddo, byddwn yn anfon cynnig grant atoch sy'n cynnwys unrhyw amodau ychwanegol ar y grant. Bydd yr arian hefyd ag amodau arferol i'n grantiau sydd ar ein gwefan.

Os yw'ch cais yn methu, byddwn yn esbonio pam. Byddwch yn gallu trafod hyn gydag aelod o'n Tîm Cyfalaf, os hoffech.

Rydym yn talu pob prosiect cyfalaf mewn ôl-daliadau ar ôl cael anfoneb. Bydd aelod o'n Tîm Cyfalaf yn trafod y broses dalu gyda chi.

## Hygyrchedd

Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd ac yn ystyried ymgeisio, gallwn eich helpu yn ystod y broses. Cysylltwch â'n Swyddog Grantiau a Hygyrchedd i drafod pa gymorth yr hoffech ei gael: cymorth.hygyrch@celf.cymru

Mae rhagor o wybodaeth am hygyrchedd ar ein gwefan.

## Amserlen

**Hanner dydd 2 Gorffennaf 2025 yw'r dyddiad cau ymgeisio.**

Rydym yn disgwyl penderfynu ar y mwyafrif erbyn diwedd Awst 2025.

# Pa gwestiynau fydd rhaid imi eu hateb?

1. Gwiriadau cyn ymgeisio

Rhestr wirio cyn ymgeisio.

2. Cysylltu â chi

Gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw mewn perthynas â'r cais. Bydd hyn yn cynnwys eich dewis iaith a gwybodaeth am eich cyfrif banc.

3. Amlinellu eich prosiect

Gwybodaeth allweddol am eich prosiect gan gynnwys ei deitl, dyddiad dechrau a gorffen a gwybodaeth gyllideb sylfaenol gan gynnwys costau cymorth hygyrchedd.

4. Disgrifio eich prosiect

Beth yw'r prosiect a pham rydych yn ei wneud?

Manylwch wedyn. Sut rydych yn gymwys ac yn bodloni ansawdd prosiect a meini prawf y cynllun? Atebwch yn y **Ddogfen Cynnig Prosiect** sydd ar wahân a'i atodi i'ch cais. Byddwn yn defnyddio'r ddogfen i asesu eich prosiect.

Rhaid ichi hefyd gynnwys cyllideb sy'n amlinellu sut rydych yn rhagweld defnyddio'r grant. Defnyddiwch y templed cyllideb gyfalaf rydym yn ei ddarparu.

5. Celfyddyd

Gwybodaeth am yr ystod o gelfyddydau a fydd yn rhan o'ch prosiect.

6. Mathau o weithgareddau

Gwybodaeth am y mathau o weithgareddau a fydd yn rhan o'ch prosiect.

7. Targedau arfaethedig

Gwybodaeth am eich targedau arfaethedig gan gynnwys nifer yr arddangosfeydd, y perfformiadau, y gweithdai a'r gynulleidfa/ymwelwyr.

8. Iaith

Yr effaith y bydd y prosiect yn ei chael ar y Gymraeg: Cadarnhaol, Negyddol neu Niwtral.

9. Lleoliad y prosiect

Ble bydd eich prosiect yn digwydd?

10. Gwybodaeth am gydraddoldeb y prosiect

Rhowch wybodaeth monitro cydraddoldeb am eich prosiect.

11. Darllen eich cais

Byddwch yn gweld pob adran o'ch cais yma. Darllenwch y cyfan yn ofalus.

12. Gwiriad cyn cyflwyno

Cofiwch - unwaith y byddwch yn clicio ar y botwm 'nesaf' isod, ni fyddwch yn gallu golygu unrhyw wybodaeth yn yr adrannau blaenorol.

Mae gwybodaeth gryno i'w gweld yma. I newid unrhyw beth, cliciwch ar y botwm 'blaenorol' ar waelod y tudalen i ddychwelyd i'r tab adolygu.

**13. Dogfennaeth ategol**

Mae'r adran yn caniatáu ichi gyflwyno atodiadau.

Rydym wedi tynnu sylw at yr atodiadau y dylech eu cyflwyno gan ddibynnu ar pa fath o brosiect sydd dan sylw a'i faint. Gallwch gynnwys dogfennau eraill a fydd yn ein helpu i ddeall y prosiect.

Rhaid cynnwys y dogfennau yma:

- Dogfen Cynnig Prosiect – gorfodol.
- Cyllideb eich prosiect (ar ein Templed Cyllideb Prosiect) – gorfodol.
- Dyfynbrisiau cyflenwyr: rhaid ichi gyflwyno tri dyfynbris gan gyflenwyr ar wahân ar gyfer pob eitem neu becyn o eitemau sy'n costio £5,000 neu ragor (os nad ydych yn eu darparu ar adeg y cais, rhaid eu darparu cyn dechrau unrhyw waith).
- Ar gyfer gwaith sy'n werth dros £25,000, rhaid ichi gytuno i ddilyn proses dendro gystadleuol agored (fel arfer drwy GwerthwchIGymru) ac efallai y gofynnwn i fod yn rhan o'r broses. Os yw hyn eisoes wedi'i wneud, bydd angen ichi gyflwyno adroddiad tendr priodol.

Gallai enghreifftiau eraill o wybodaeth ategol gynnwys:

- tystiolaeth o'r galw am eich prosiect.
- tystiolaeth o arian partneriaeth.
- llythyrau sy'n cadarnhau unrhyw gefnogaeth mewn nwyddau cynlluniau'r cynllunydd.
- cynlluniau busnes i brosiectau sydd yn nes ymlaen yn y broses gynllunio/adeiladu.

**14. Datganiad a chyflwyno eich cais**

Darllenwch y datganiad a chyflwynwch eich cais.

# Sut i ddefnyddio templed cyllideb y prosiect

Rhaid cyflwyno cyllideb eich prosiect ar ein Templed Cyllideb Prosiect.

Bydd y templed yn cyfrifo is-gyfanswm yn awtomatig ac yn helpu i sicrhau cydbwysedd y gyllideb. Llenwch y blychau gwyn lle bo'n briodol. Os nad yw rhai o'r penawdau yn berthnasol i'ch prosiect, gadewch nhw'n wag. Peidiwch â newid celloedd llwyd. Defnyddiwch bunnau llawn yn unig.

Dylai cyllideb eich prosiect ddweud wrthym faint y bydd eich prosiect yn ei gostio (gwariant) a faint y byddwch yn ei gael i dalu amdano (incwm). Dylai'r incwm a'r gwariant ar gyfer eich prosiect gydbwyso (bod yn gyfartal). Ni allwn dderbyn eich cyllideb os nad yw'n cydbwyso, felly gwiriwch hyn yn ofalus. Rhaid ichi sicrhau bod y gyllideb yn adlewyrchu pa ganran o'r costau cymwys y gallwch ymgeisio amdanynt. Rhaid i'ch cyllideb ddangos bod modd cyflawni'r prosiect yn y flwyddyn ariannol.

- Ceisiadau hyd at a chan gynnwys £250,000 – mae modd i ymgeisio am hyd at 90% o'ch costau cymwys.
- Ceisiadau dros £250,000 – byddwn yn disgwyl ariannu hyd at 75% o'ch costau cymwys.

### Gwariant y prosiect

Defnyddiwch y templed i nodi faint y bydd eich prosiect yn ei gostio. Defnyddiwch y penawdau yno i ddangos cost yr holl eitemau y byddwch yn talu amdanynt fel rhan o'ch prosiect. Gallwch ychwanegu penawdau cost ychwanegol gan ddibynnu ar anghenion eich prosiect.

### Offer

Nodwch gost yr offer rydych am ei brynu. Dylech wahanu'r gost yn eitemau neu becynnau unigol. Mae pecyn yn grŵp o eitemau rydych yn bwriadu eu harchebu oddi wrth yr un cyflenwr. Er enghraifft, os ydych yn bwriadu prynu goleuadau llwyfan LED gan un cyflenwr a rhywfaint o offer sain cludadwy gan un arall, byddai eich cyllideb yn edrych felly:

| Offer | | |
|---|---|---|
| Offer (Eitem 1/Pecyn 1) | Goleuadau Llwyfan LED | £1,700 |
| Offer (Eitem 2/Pecyn 2) | Offer sain cludadwy | £3,500 |

Dylai'r gost rydych yn ei gynnwys yng nghyllideb eich prosiect gyd-fynd ag unrhyw ddyfynbrisiau cyflenwyr sydd yn eich cais.

### Gwaith adeiladu

Nodwch gyfanswm cost unrhyw waith adeiladu. Efallai yr hoffech ei wahanu'n becynnau gwaith os byddwch yn defnyddio gwahanol gontractwyr i gyflawni gwahanol elfennau. Manylwch ar beth yw'r costau adeiladu yn y gyllideb.

Os ydych yn bwriadu talu £5,000 neu ragor i unigolyn neu sefydliad/contractwr, bydd angen ichi eu penodi gan ddefnyddio proses ddewis gystadleuol. Byddwn yn gwirio i wneud yn siŵr eich bod wedi penodi'n briodol bobl neu sefydliadau eraill i weithio ar eich prosiect. Byddwn yn disgwyl ichi gyflwyno o leiaf dri dyfynbris gan gontractwyr ar wahân.

Os ydych yn bwriadu talu £25,000 neu ragor i unigolyn neu sefydliad/contractwr, byddwn yn gofyn ichi gyflwyno adroddiad tendr sy'n nodi pam rydych wedi dewis defnyddio'r contractwr. Bydd disgwyl ichi hefyd benodi drwy broses dendro agored a dylech gael cymeradwyaeth gennym ni ar gyfer y dogfennau tendr cyn eu hysbysebu.

Os ydych eisoes wedi cael dyfynbrisiau neu dendrau ar gyfer eich prosiect, dylech ddefnyddio'r amcangyfrifon yn sail i gyllideb eich prosiect.

Os oes angen rhagor o le arnoch, defnyddiwch yr adran "Costau eraill" o'r templed i nodi costau prosiect nad ydynt yn y penawdau.

### Ffioedd proffesiynol

Nodwch unrhyw ffioedd proffesiynol y byddwch yn eu talu a rhestrwch beth ydynt yn y gyllideb. Dylech nodi yn eich cynnig prosiect pam mae angen ichi dalu ffioedd proffesiynol. Os ydych yn bwriadu talu £5,000 neu fwy i unigolyn neu sefydliad, bydd angen ichi ei benodi drwy ddefnyddio proses ddewis gystadleuol. Byddwn yn gwirio i wneud yn siŵr eich bod wedi penodi'n briodol bobl neu sefydliadau eraill i weithio gyda chi.

### Gwerth cymorth mewn nwyddau

Gall hyn gynnwys gwaith gwirfoddolwyr di-dâl a rhoi tir, adeiladau neu offer. Nid ydym yn derbyn bod gostyngiadau gan gyflenwyr yn gyfraniad mewn nwyddau. Felly ni allwn dderbyn cyfraniad mewn nwyddau gan unrhyw gyflenwr rydych hefyd yn ei dalu fel rhan o'ch prosiect.

Cyflwynwch lythyr gyda'ch cais sy'n cadarnhau'r cymorth mewn nwyddau ac yn dangos gwerth y nwyddau neu'r gwasanaethau a sut rydych chi wedi rhoi gwerth arnynt.

### TAW

Os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, dylai cyllideb eich prosiect ddim ond gynnwys TAW na allwch ei hawlio'n ôl ("TAW na ellir ei adennill"). Dywedwch wrthym sut rydych wedi cyfrifo swm y TAW na ellir ei adennill yng nghyllideb eich prosiect.

Os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, cynhwyswch TAW yng nghyllideb eich prosiect. Gallwn ariannu TAW na ellir ei adennill os ydych yn ei gynnwys yn eich cais gwreiddiol.

### Arian wrth gefn

Cynhwyswch arian wrth gefn sy'n berthnasol i'r prosiect.

### Costau eraill

Nodwch unrhyw gostau eraill y bydd yn rhaid ichi eu talu fel rhan o'ch prosiect. Gall hyn gynnwys costau recriwtio, arolygon (fel am asbestos), ffioedd cyfreithiol a thaliadau statudol.

### Incwm y prosiect

Defnyddiwch y templed i nodi'r incwm y byddwch yn ei ddefnyddio i dalu am y prosiect. Nodwch enw pob partner ariannu ac a yw eu cyfraniad wedi'i gadarnhau neu a ydych o hyd yn ymgeisio amdano.

### Eich arian eich hun

Os ydych yn sefydliad sy'n cael arian amlflwyddyn gennym, ni all hyn ddod o'ch grant refeniw.

### Incwm a enillir

Nodwch unrhyw incwm o incwm a enillir.

### Arian awdurdodau lleol

Nodwch unrhyw grantiau gan awdurdodau lleol.

### Arian cyhoeddus arall

Nodwch unrhyw grantiau gan sefydliadau cyhoeddus fel Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth Prydain.

### Cymorth mewn nwyddau

Dylai hwn fod yr un fath ag unrhyw gost mewn nwyddau sydd gennych yn ffigurau gwariant eich prosiect.

### Incwm arall

Nodwch unrhyw incwm arall y byddwch yn ei ddefnyddio i dalu am eich prosiect. Gall hyn gynnwys:

- incwm o godi arian, apêl gyhoeddus a rhoddion.
- grantiau gan ddosbarthwyr eraill y Loteri.
- grantiau gan unrhyw ymddiriedolaeth neu sefydliad.

# Angen cysylltu â ni?

Rhaid cysylltu â'r tîm cyfalaf i gael ffurflen gais. Cysylltwch â ni drwy e-bost gyda disgrifiad byr o'ch prosiect: cyfalaf@celf.cymru

Os oes gennych unrhyw broblemau technegol gyda'r ffurflen gais neu'r porth, cysylltwch â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth: grantiau@celf.cymru

**Mae sawl ffordd o gysylltu:**

Ffôn: 03301 242733 (mae'n costio'r un peth â galwad leol)
10am-4pm Llun-Gwener

Gwefan: arts.wales

Facebook: Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales

Trydar: @Arts_Wales_

Instagram: celfcymruarts